# Croeso i Ceisio Cartref RhCT

Homefinder RCT
Ceisio Cartref RhCT

## Eich Canllaw

***Dyma nodyn i'ch atgoffa sut mae'r broses yn gweithio:***

Dydd Iau
*dechrau gwneud cais*

1. *Mae'r broses cynnig yn dechrau bob Dydd Iau*
2. *Ewch i: www.HomefinderRCT.org.uk*
3. *Porwch drwy'r holl gartrefi sydd ar gael*
4. Bid — *Gwnewch gynnig am hyd at dri o gartrefi*
5. Dydd Mawrth *cau biddin* — *Arhoswch i'r broses cynnig gau*
6. *Os yw'ch cynnig yn llwyddiannus, byddwn ni'n eich ffonio chi*



RHONDDA CYNON TAF · Cynon Taf Community Housing Group · Hafod · newydd · Rhondda · Trivallis. · Tai Wales & West Housing

# Cyflwyniad

**Croeso i Ceisio Cartref RhCT, dyma ffordd hawdd a syml i wneud cais am dŷ cymdeithasol yn RhCT. Mae cartrefi ar gael bob wythnos a chewch chi gyflwyno cynnig am y cartrefi sy wedi'u hysbysebu.**

Bydd raid ichi gofrestru cais â Ceisio Cartref RhCT er mwyn mynegi diddordeb mewn unrhyw un o'r cartrefi gaiff eu hysbysebu.

Mae Ceisio Cartref RhCT yn bartneriaeth rhwng y cyngor a chwe landlord gan gynnwys, sef Grwp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf, Cymdeithas Tai Hafod, Cymdeithas Tai 'Newydd', Trivallis, Cymdeithas Tai Rhondda a Chymdeithas Tai Wales & West. Maen nhw'n cynnig dros 15,000 o gartrefi i'w gosod yn Rhondda Cynon Taf.

Mae Ceisio Cartref RhCT yn rhoi'r cyfle ichi ddewis ble rydych chi eisiau byw. Mae'r gwasanaeth yn syml ac yn ddi-dâl.

*Mae *Ceisio Cartref RhCT hefyd yn hysbysebu cartrefi y mae landlordiaid preifat yn eu gosod. Cewch gysylltu â nhw'n uniongyrchol, heb yr angen i gyflwyno cynnig.*

## Sut ca i gofrestru?

Er mwyn cyflwyno cynnig am gartrefi sydd wedi'u hysbysebu, rhaid ichi fod dros 16 oed ac yn "*unigolyn cymwys". Rhaid ichi hefyd gofrestru cais gyda Ceisio Cartref RhCT.

Unwaith ichi gofrestru, byddwn ni'n rhoi cyfeirnod mewngofnodi a dyddiad cofiadwy i chi er mwyn ichi gyflwyno cynnig am gartrefi.

Os nad ydych chi wedi cofrestru, cewch gyflwyno cais ar-lein.

Am ragor o wybodaeth am y meini prawf i fod ar y gofrestr * ac i gyflwyno cynnig am gartref, cysylltwch â'r Ceisio Cartref RhCT.

Ydych chi wedi colli'r manylion yma? Cysylltwch â'r Ceisio Cartref RhCT ar 01443 425678.

**Noder: Dydy cael eich derbyn i ymuno â Ceisio Cartref RhCT ddim yn gwarantu y byddwch chi'n derbyn cynnig am dŷ*



## Ydy'ch amgylchiadau neu'ch manylion cyswllt wedi newid?

Ydy'ch amgylchiadau wedi newid? Rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl er mwyn inni ddiweddaru'ch cais. Os ydych chi'n symud cartref, neu'n newid rhif eich ffôn; os ydych chi'n ychwanegu person i'ch cais neu'n dileu enw person o'ch cais; neu os ydy'ch amgylchiadau cartref yn newid, rhowch wybod i ni.

Cewch ddiweddaru'n manylion ar-lein gan ddefnyddio'ch cyfeirnod mewngofnodi a dyddiad cofiadwy.

## Pa gartrefi ga i gyflwyno cynnig amdanyn nhw?

Mae maint a math y cartref yn dibynnu ar anghenion a maint eich aelwyd.

Bydd pob hysbyseb yn nodi meini prawf. Er enghraifft, os yw'r cartref yn dw â thair ystafell wely, byddwn ni'n ystyried ei gynnig i chi os ydych chi wedi'ch cofrestru ar gyfer cartref â thair ystafell wely.

Cofiwch efallai y bydd cymdeithasau tai yn rhoi trefniadau gosod cartrefi lleol ar waith ar gyfer eu cartrefi ac efallai y byddan nhw'n rhoi meini prawf gosod cartrefi ychwanegol ar waith ar gyfer unigolion sydd ag ôl-ddyledion rhent neu'r rheiny sy wedi ymddwyn yn anghymdeithasol yn y gorffennol.

## Tai wedi'u haddasu

Mae Ceisio Cartref RhCT hefyd yn hysbysebu cartrefi sydd wedi'u haddasu ar hyd a lled y fwrdeistref.

Byddwn ni'n asesu anghenion y rheiny sy'n gwneud cais sydd â phroblemau symud, fel anhawster cerdded i fyny grisiau neu'r rheiny sydd angen cartref wedi'i addasu. Byddwn ni'n rhoi categori symud i'r rheiny sy'n gwneud cais yn seiliedig ar eu lefel symud, e.e. lefel 1, lefel 2 neu lefel 3.

Byddan nhw'n cael gwybod eu lefel pan fyddan nhw'n gwneud cais. Wrth hysbysebu cartrefi hygyrch neu gartrefi sydd wedi'u haddasu, bydd y symbol i'w weld. Bydd hefyd ddisgrifiad o'r rheiny mae'r cartrefi yn addas ar eu cyfer.

Byddwn ni'n blaenoriaethu'r rheiny sy'n cyflwyno cynnig am gartrefi sy'n cydweddu â'u categori.

Oes gan unrhyw un sy'n rhan o'ch cais broblemau symud? Sicrhewch fod eu hanghenion wedi'u cofnodi.






## Ble caiff y cartrefi eu hysbysebu?

- Ar-lein - **www.homefinderrct.org.uk**

**Bydd manylion yr hysbyseb yn cynnwys**

- Llun o'r cartref neu lun o gartref tebyg.
- Enw'r landlord
- Lleoliad
- Maint a math y cartref
- Y rhent a chostau eraill
- Arwyddion (gweler isod) i nodi nodweddion penodol o'r cartref, fel man parcio neu ardd. Neu arwyddion i nodi unrhyw ofynion penodol fel isafswm oed ac a yw blaenoriaeth wedi'i rhoi i bobl benodol

## Arwyddion ar Hysbysebion – arweiniad a disgrifiad

- Number of Bedrooms
- Only for people of the age shown and below
- Households must have a member over the age shown
- Parking available
- No Parking
- Property Adaptation Level
- Own Garden
- No Garden
- Sheltered Housing
- Pets Allowed
- Pets Not Allowed

## Y Drefn Wythnosol

Caiff cartrefi eu hysbysebu bob wythnos.

Un funud wedi canol nos bob nos Iau, bydd hysbysebion newydd ar www.homefinderrct.org.uk sy'n dangos y cartrefi sydd ar gael. Cewch gyflwyno cynnig am gartrefi tan 11.59pm y dydd Mawrth canlynol. Fyddwch chi ddim ar eich ennill drwy gyflwyno cais yn gynnar - caiff asesiadau eu hasesu ar yr un pryd.

## Sut ca i gyflwyno cynnig am gartref?

**Cewch gyflwyno cynnig mewn tair ffordd**

- Cyflwyno cais ar y wefan drwy fewngofnodi i: **www.homefinderrct.org.uk**
- Cyflwyno cais ar eich ffôn symudol drwy fewngofnodi i: www.homefinderrct.org.uk a dewis y fersiwn ar gyfer ffonau symudol
- Galw heibio'r Ganolfan Cynghori ar Faterion Tai yn Nhŷ Sardis. Ewch i lyfrgelloedd lleol i ddefnyddio cyfrifiadur sy wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd, fodd bynnag, efallai y bydd raid ichi gadw lle ymlaen llaw.

Os na allwch chi gyflwyno cynnig eich hun, fe gewch ofyn i aelod o'r teulu neu ffrind, neu weithiwr cymorth gyflwyno cynnig ar eich rhan. Neu cysylltwch â'r Ceisio Cartref RhCT ar 01443 425678.

Bydd y cylchlythyr am ddim yn hysbysebu'r holl gartrefi y mae Cymdeithasau Tai yn eu gosod yn ystod yr wythnos honno. Cewch hefyd fynd ar-lein bob wythnos i weld y cartrefi efallai y byddwch chi'u heisiau.

Cewch gyflwyno cynnig am hyd at 3 chartref yr wythnos.


Cofiwch, os ydych chi'n cyflwyno cynnig am gartref sy'n rhy fach ar gyfer eich aelwyd chi, neu os yw'r cartref yn annaddas ar gyfer eich aelwyd am unrhyw reswm arall, fyddwn ni ddim yn derbyn eich cynnig.

# Cyflwyno cynnig ar y wefan

Er mwyn mewngofnodi i'ch cyfrif, byddwch chi angen eich cyfeirnod mewngofnodi a dyddiad cofiadwy wrth law.

Ydych chi'n cael anhawster wrth fewngofnodi i'r system? Cysylltwch â'r Ceisio Cartref RhCT ar 01443 425678.


Unwaith ichi fewngofnodi i'r system, bydd y sgrîn 'My Account' yn cael ei harddangos. Yma, byddwch chi'n gweld eich cynigion presennol ac unrhyw gartrefi rydych chi'n gymwys i gyflwyno cynnig amdanyn nhw.




Er mwyn chwilio am gartrefi, bydd rhaid ichi glicio ar 'Eligible Properties'

# Chwilio am gartrefi


Mae modd chwilio am gartrefi cymdeithasau tai drwy glicio'r blwch 'Social Housing'. Dewiswch faint a math y cartref rydych chi'i eisiau yn eich hoff ardal, ac yna glicio ar 'Search'



# Canlyniadau chwilio am gartrefi


Bydd yr holl gartrefi mewn ardal rydych chi'n gymwys i gyflwyno cynnig am gartrefi ynddi, yn seiliedig ar yr wybodaeth rydych chi wedi'i nodi ar eich sgrîn 'Property search', yn cael eu dangos.

Er mwyn gwneud cais am gartref, dewiswch: **'Apply for property'**





# Cyflwyno cynnig

Caiff eich cynnig ei gofrestru a byddwch chi'n gweld y cartref yn y rhestr o'ch cynigion presennol ar eich tudalen gartref.




# Cadarnhau cyflwyno cynnig

Caiff eich cynnig ei gofrestru a byddwch chi'n gweld y cartref yn y rhestr o'ch cynigion presennol ar eich tudalen gartref.




# Canlyniadau Cartrefi

Cewch weld canlyniad pob cynnig yn Recently let properties. Cewch hefyd weld Band yr unigolyn llwyddiannus a'r dyddiad y cyflwynodd ei gais.



Recently let properties - Table View

Offers are not always made to the top person on the shortlist, to cater for exceptional situations (for example, local lettings policy)

| Property Ref: | Landlord | Area | Address | Bedrooms | Floor | Property Type | Band | Effective Date | No. of bids |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13813 | Rhondda Cynon Taf County Borough Council | Aberaman | KEVINS CBL DIRECT MATCH, CBL DIRECT, rg23090 | 2 | Not Applicable | Bungalow | D | 02/02/2000 | 1 |
| 13844 | Rhondda Cynon Taf County Borough Council | Aberaman | AUTO-BID TESTING PROPERTY #1, ##1, rg1100 | 1 | Ground Floor | Bungalow | D | 02/02/2000 | 1 |

Close

## Cyflwyno cynnig - gan ddefnyddio ffôn/teclyn symudol

Ydych chi'n cael anhawster wrth fewngofnodi i'r system? Cysylltwch â'r Ceisio Cartref RhCT ar 01443 425678.


Er mwyn mewngofnodi i'ch cyfrif, byddwch chi angen eich cyfeirnod mewngofnodi a dyddiad cofiadwy wrth law. Yna, dewiswch **Sign in.**

## Fy Nghyfrif




## Chwilio am gartrefi


Mae modd ichi chwilio am gartrefi drwy nodi manylion eich hoff ardal a chlicio ar **Search.**



## Cartrefi Cymwys

Byddwch chi'n gweld yr holl gartrefi rydych chi'n gymwys i gyflwyno cynnig amdanyn nhw, yn seiliedig ar yr wybodaeth rydych chi wedi'i nodi ar y sgrîn 'Property search'.

Er mwyn cyflwyno cynnig am gartref, dewiswch: **Apply Now**




## Cyflwyno cynnig

Hoffech chi gyflwyno cynnig am y cartref? Dewiswch 'Confirm details and place bid'.

Mae'n bwysig cofio rhifau cyfeirnod y cartrefi rydych chi wedi cyflwyno cynnig amdanyn nhw. Fydd cyfeiriadau llawn y cartrefi ddim i'w gweld yn y rhestr o'r cartrefi sydd wedi'u gosod yn ddiweddar. Os nad ydych chi eisiau cyflwyno cynnig, cliciwch ar '**Back to property information'** ar waelod y sgrîn.



## Cadarnhan cyflwyno cynnig

Rydych chi wedi cyflwyno cynnig. Cewch weld y cartref drwy glicio ar ‘current bids’ ar eich tudalen gartref.




Ar ôl cyflwyno cynnig, bydd raid ichi aros tan ar ôl y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno cynnig am y cartref i wybod a ydych chi’n llwyddiannus.

## Cartrefi sydd wedi’u gosod yn ddiweddar

Cewch weld canlyniadau cynigion sy wedi’u cyflwyno yn ‘Recent lets’. Cewch hefyd weld y dyddiad y cyflwynodd yr unigolyn llwyddiannus ei gais.



## Ymweld â chartrefi

Fel arfer, caiff y cartref ei gynnig i'r unigolyn yn y Band uchaf a gyflwynodd ei gais gyntaf. Os nad yw'r unigolyn eisiau symud i'r cartref mwyach, caiff y cartref ei gynnig i'r unigolyn yn y Band uchaf a gyflwynodd ei gais ar ôl yr unigolyn a gyflwynodd ei gais gyntaf. Byddwn ni'n trefnu ichi ymweld â chartrefi ar fyr rybudd. Byddwn ni'n eich ffonio, felly, mae'n bwysig eich bod wedi nodi eich rhif ffôn cywir.

## Cofiwch:

- Caiff y cartrefi sydd ar gael eu hysbysebu bob wythnos.
- Cewch gyflwyno hyd at 3 chynnig yr wythnos.
- Cewch gyflwyno pob cynnig ar yr un pryd, neu ar fwy nag un adeg.
- Sicrhewch fod eich manylion cyswllt yn gywir fel y gallwn ni gysylltu â chi'n gyflym.
- Byddwn ni'n ystyried pob cynnig cymwys. Serch hynny, byddwn ni'n ystyried y rheiny yn y Band uchaf sy'n cyflwyno'u ceisiadau gyntaf cyn unrhyw rai eraill.
- Cewch weld canlyniadau'r wythnos flaenorol drwy fewngofnodi i **www.homefinderrct.org.uk**
- Sicrhewch fod eich Rhif Adnabod Defnyddiwr a rhif PIN mewn man diogel.
- Mae partneriaid y Gofrestr Tai Cyffredin yn cadw'r hawl i gynnig cartrefi'n uniongyrchol i rai aelwydydd mewn amgylchiadau eithriadol.
- Unwaith ichi gael eich cyfeirnod mewngofnodi a'ch dyddiad cofiadwy, efallai na fyddwch chi'n llwyddo i gael gartref parhaol drwy system Ceisio Cartref RhCT am sbel. Efallai yr hoffech chi ystyried dewisiadau tai eraill.

**Os ydych chi'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref mae rhaid ffonio'r Garfan Materion Tai ar 01443 495188.**

## Manylion cyswllt

Swyddfa: Ceisio Cartref RhCT
Tŷ Elái
Dinas Isaf
Trewiliam
CF40 1NY

Ffôn: 01443 425678

homefinder@rctcbc.gov.uk